# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Ddydd Toybox**

**Coleg Cambria**
**Heol Kelsterton Cei Connah**
**Glannau Dyfrdwy**
**CH5 4BR**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

08/11/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Meithrinfa Ddydd Toybox

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Coleg Cambria |
| Lleoedd cofrestredig | 106 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Nodi â Llaw]<br>14 Chwefror 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nodi â Llaw]<br>Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yw gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Rhagorol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Rhagorol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Caiff llesiant y plant ei ystyried yn ofalus ac mae'n rhan greiddiol o'r gofal a'r cymorth a ddarperir. Mae'r plant yn hapus iawn ac yn mwynhau eu profiadau chwarae a dysgu yn fawr. Maent yn dysgu parch a sut i ryngweithio mewn ffordd gydweithredol ag eraill, gan ddysgu i rannu a dangos tosturi. Mae'r plant yn meithrin amrywiaeth o sgiliau drwy'r cyfleoedd creadigol a chyffrous sydd ar gael.

Mae'r staff yn darparu gofal sy'n hyrwyddo llesiant y plant ac sy'n sicrhau eu bod yn ddiogel. Maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r plant, gan eu cefnogi a'u hannog i ddangos parch ac i fwynhau eu profiadau. Mae'r staff yn llwyddo i ddarparu cyfleoedd diddorol a chyffrous i'r plant feithrin amrywiaeth o sgiliau. Maent yn rhagorol wrth nodi cyfleoedd dysgu sy'n dod i'r amlwg ac wrth fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hynny.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel a chaiff gwiriadau rheolaidd ac addas eu cwblhau. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi creu amgylchedd hyfryd sydd i raddau helaeth iawn yn seiliedig ar anghenion y plant, eu cysur a chyfleoedd iddynt ddysgu. Mae'n cynnwys adnoddau sy'n ysbrydoli'r plant ac yn eu helpu i ddod yn ddysgwyr chwilfrydig.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ddealltwriaeth dda o'r gofal y maent yn ei ddarparu, a chaiff hyn ei adlewyrchu'n effeithiol yn y polisïau a'r gweithdrefnau. Mae'r staff yn ymroddedig a chânt eu rheoli'n dda, gan sicrhau bod y plant yn cael y gofal gorau posibl. Mae trefniadau hunanwerthuso yn rhan annatod o arferion y lleoliad a chânt eu defnyddio'n effeithiol i wneud gwelliannau cadarnhaol sydd o fudd i'r plant.

| **Llesiant** | **Rhagorol** |
|---|---|

Mae hapusrwydd a llesiant y plant yn hollbwysig i'r lleoliad. Mae ganddynt lais cryf ac maent yn gwneud penderfyniadau hyderus. Mae'r plant yn mynegi eu hunain mewn ffordd glir a chadarnhaol, gan wybod y bydd y staff yn gwrando arnynt ac yn ymateb â gofal a pharch. Mae'r plant yn cael lleisio barn o ran sut y byddant yn treulio eu hamser, a chaiff eu diddordebau a'u syniadau eu hystyried yn ofalus gan y staff wrth gynllunio ac wrth drefnu gweithgareddau ac adnoddau ar gyfer chwarae rhydd. Mae'r plant yn mynegi eu hunain gan ddefnyddio gwahanol fathau o gyfathrebu, gan gynnwys ciwiau llafar a chiwiau dieiriau. Er enghraifft, symudodd baban tuag at y cyfarpar dringo gan fynegi ei fod am ei ddefnyddio, ymatebodd y staff gan ei helpu i ddringo i fyny.

Mae'r plant wedi setlo ac yn dangos hapusrwydd go iawn wrth iddynt chwarae a dysgu. Mae ganddynt gydberthnasau cadarnhaol â'r staff sy'n sicrhau eu bod yn fodlon mynd atynt am gysur neu gymorth neu er mwyn gofyn iddynt chwarae â nhw. Mae'r plant yn symud o gwmpas yr amgylchedd yn hawdd, gan ddewis yn hapus ble i chwarae a beth i'w chwarae. Maent yn gyfarwydd â'r drefn, sy'n eu helpu i deimlo'n gyfforddus ac yn ddiogel. Er enghraifft, daeth y plant hynny a oedd yn cael cyfle i gysgu yn y prynhawn o hyd i'w gwelyau a'u cysurwyr yn hapus ac yn annibynnol, gan orwedd i gysgu ar ôl eu cinio.

Mae'r plant yn dangos parch tuag at ei gilydd, gan rannu gofod ac adnoddau'n fodlon a dangos pryder os bydd plentyn wedi cynhyrfu neu'n brifo ei hun. Maent yn rhyngweithio'n dda ac yn gwenu ac yn chwerthin gan ddangos mwynhad a phleser wrth chwarae â'i gilydd. Er enghraifft, roedd dau blentyn yn mwynhau chwarae ag ychydig o ddŵr roeddent wedi'i roi ar y bwrdd. Gwnaethant ddefnyddio dŵr, tywod a sialciau i wneud gwahanol batrymau ac roeddent yn chwilfrydig wrth i'r tywod newid lliw oherwydd y sialciau.

Gall y plant ddilyn eu diddordebau ac maent yn dangos pleser mawr wrth gymryd rhan mewn gweithgaredd. Maent yn mwynhau'r hyn y maent yn ei wneud ac yn fwy na pharod i rannu eu profiadau. Er enghraifft, roedd plentyn yn awyddus i ddangos llun o dân gwyllt i ni roedd yn ei greu gan ddefnyddio dabiwr bingo. Aeth ati'n hyderus i ddewis pa liw roedd am ei ddefnyddio ac esboniodd fod y tân gwyllt yn debyg i'r rhai yr oedd wedi'u gweld yn ddiweddar. Datblygodd y plentyn ei sgiliau datrys problemau wrth i'r gwynt chwythu'r papur, felly ceisiodd ddal un llaw arno wrth iddo dynnu'r llun.

Mae llawer o wahanol adnoddau, gweithgareddau a chyfleoedd dysgu ar gael i'r plant sy'n eu helpu i feithrin amrywiaeth o sgiliau. Gwnaethant gymryd risgiau pwyllog a meithrin eu sgiliau corfforol wrth iddynt adeiladu cwrs rhwystrau gan ddefnyddio cratiau llaeth ac estyll pren. Caiff annibyniaeth y plant ei hannog, ac maent yn fwy na pharod i roi cynnig ar bethau drostynt eu hunain cyn gofyn am gymorth. Maent yn cael gafael ar yr adnoddau y maent am eu defnyddio ac yn gwybod y gallant ddefnyddio eitemau o ardaloedd eraill i wella eu

profiadau chwarae a dysgu. Er enghraifft, aeth y plant â thoes chwarae i'r gornel gartref er mwyn iddynt allu gwneud bwyd ffug.

| **Gofal a Datblygiad** | **Rhagorol** |
|---|---|

Mae'r staff yn rhoi'r polisïau a'r gweithdrefnau effeithiol ar waith yn gyson, gan sicrhau bod y plant yn ddiogel. Mae hyfforddiant diogelu'r staff yn gyfredol ac roedd yr aelodau hynny o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu nodi'r weithdrefn gywir i'w dilyn pe bai ganddynt bryderon am blentyn. Cynhelir ymarferion tân rheolaidd er mwyn sicrhau bod y staff a'r plant yn ymwybodol o'r weithdrefn i'w dilyn mewn argyfwng.

Caiff arferion hylendid da eu cynnwys fel rhan o'r drefn o ddydd i ddydd, gan helpu i atal achosion o groes-halogi. Er enghraifft, caiff y byrddau eu glanhau'n rheolaidd, ac mae'r staff yn gwisgo ffedogau wrth weini bwyd. Mae'r staff yn gwneud yn siŵr bod dŵr ar gael i'r plant drwy gydol y dydd er mwyn iddynt fod wedi'u hydradu a darperir opsiynau bwyd maethlon adeg byrbrydau ac amser cinio. Mae'r staff yn deall pwysigrwydd cynnig cyfleoedd i'r plant fod yn egnïol a chael awyr iach. Maent yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd rheolaidd i fod yn yr awyr agored ac yn darparu adnoddau a gweithgareddau y mae'r plant am gymryd rhan ynddynt. Er enghraifft, gwnaeth grŵp o blant wir fwynhau dilyn aelod o'r staff o amgylch wrth iddo fynd dros ac oddi tan y gwahanol eitemau o gyfarpar chwarae.

Mae'r staff yn ymddwyn mewn ffordd garedig a gofalgar tuag at y plant. Maent yn eu parchu ac yn eu trin mewn ffordd deg a charedig. Maent yn defnyddio tonau sy'n ennyn diddordeb y plant ac yn dangos hoffter go iawn wrth helpu'r plant. Mae'r staff yn rhannu straeon a chaneuon mewn ffordd frwdfrydig, sy'n annog y plant i wrando ac actio. Mae'r staff yn eistedd ar lefel y plant ac yn ymgysylltu'n dda yn eu chwarae. Er enghraifft, wrth chwarae â'r tedis anifeiliaid, roedd y staff yn siarad amdanynt a'r synau y maent yn eu gwneud.

Mae'r staff yn gwneud y gorau o gyfleoedd cynllunio a gweithgareddau yn y fan a'r lle. Maent yn nodi diddordebau cyfredol yn effeithiol, drwy eu gwybodaeth am y plant a mewnbwn gan y rhieni. Maent yn defnyddio arsylwadau yn llwyddiannus i nodi beth wnaeth y plant ac adegau addysgu posibl. Er enghraifft, wrth i'r staff lenwi hambwrdd dŵr, dechreuodd plentyn ddefnyddio cynhwysydd bach i roi dŵr ynddo i'w drosglwyddo. Wedyn, rhoddwyd cynhwysydd mwy o faint iddo i'w ddefnyddio. Caiff meysydd i'w datblygu o bosibl yn y dyfodol eu nodi'n dda gan y staff a'u hystyried wedyn fel rhan o'r trefniadau cynllunio. Er enghraifft, pan oeddent am helpu'r plant â'u sgiliau gwrando, gwnaethant ddefnyddio gweithgareddau corfforol yn yr awyr agored gan eu bod yn chwarae gemau lle maent yn rhedeg o gwmpas ac yn gorfod gwrando ar gyfarwyddiadau. Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o sut i gefnogi dysgu'r plant ac maent yn rhagorol wrth nodi cyfleoedd dysgu sy'n dod i'r amlwg ac wrth fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hynny. Er enghraifft, pan welwyd pry cop ar y llawr, aeth y staff ati i annog y plant i edrych arno gan ddechrau canu ‘incy wincy spider’.

## Yr Amgylchedd — Rhagorol

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y staff yn dilyn mesurau priodol i gadw'r plant yn ddiogel. Caiff asesiadau risg eu cwblhau'n rheolaidd, a chynhelir gwiriadau dyddiol er mwyn sicrhau y gellir nodi unrhyw beryglon newydd a'u rheoli'n dda. Caiff mynediad ei reoli'n effeithiol er mwyn atal pobl heb awdurdod rhag dod i mewn neu er mwyn atal y plant rhag gallu gadael heb oruchwyliaeth. Mae'r ardal awyr agored yn ddiogel gan fod ffens gadarn o'i chwmpas. Caiff gwiriadau priodol eu cynnal er mwyn sicrhau bod cyfarpar fel adnoddau diogelwch tân yn addas i'w ddefnyddio. Cedwir cofnod o ymwelwyr er mwyn gallu cyfeirio ato pan fo angen.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi creu amgylchedd sy'n apelgar ac yn groesawgar i'r plant ac i ymwelwyr. Caiff pob ardal ei chynnal a'i chadw'n dda a'i haddurno mewn ffordd sy'n creu awyrgylch cynnes a chroesawgar. Mae'r tu mewn yn olau ac yn llachar ac mae gwaith y plant yn cael ei arddangos mewn ffordd ddeniadol, gan roi ymdeimlad o falchder ac o berthyn iddynt. Mae'r amgylchedd yn ysbrydoledig ac yn annog y plant i ddysgu, i chwarae ac i fod yn annibynnol. Mae gwelliannau i'r ardaloedd awyr agored wedi creu gofod cyffrous a mannau y mae'r plant am chwarae ynddynt a'u harchwilio. Cafodd y plant fwynhad mawr wrth gymryd risgiau pwyllog wrth iddynt gydbwyso a dringo. Gellir meithrin sgiliau corfforol wrth i'r plant redeg, reidio beiciau a chwarae'n llawn brwdfrydedd. Er enghraifft, reidio eu beiciau dros y bont a defnyddio'r ramp i rolio'r peli.

Mae'r amgylchedd yn cynnwys adnoddau sy'n briodol o ran oedran sy'n ysbrydoli'r plant ac yn eu galluogi i ddilyn eu diddordebau. Caiff ardaloedd dysgu eu creu'n effeithiol er mwyn cefnogi dychymyg y plant a'u profiadau chwarae. Er enghraifft, mae sosbenni a chyfarpar cegin go iawn yn y gornel gartref i'r plant eu defnyddio. Caiff yr holl adnoddau eu cynnal a'u cadw'n dda ac maent o ansawdd da. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod adnoddau addas sy'n briodol ar gyfer oedran a cham datblygiad y plant ar gael yn yr ystafelloedd. Mae'r deunyddiau naturiol sydd ar gael yn gwella mwynhad a chwilfrydedd y plant i chwarae a dysgu. Er enghraifft, mae cyfleoedd chwarae tywod a dŵr ar gael i'r plant yn gyson. Gwnaeth y plant fwynhau ychwanegu dŵr at y tywod er mwyn iddynt allu ceisio adeiladu castell tywod. Mae cyfleusterau addas ym mhob ardal, gan gynnwys toiledau a sinciau ac mae'r dodrefn o faint addas i blant er mwyn i'r plant allu bod yn annibynnol ac yn gyfforddus.

| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | Rhagorol |
|---|---|

Mae gan y lleoliad ddatganiad o ddiben sy'n llawn gwybodaeth ac yn bodloni'r gofynion, gan alluogi'r rhieni i wneud penderfyniad hyddysg cyn defnyddio'r gwasanaeth. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymrwymedig i ddarparu gofal cadarnhaol drwy'r gwasanaeth rhagorol y maent wedi'i ddatblygu. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn gyfredol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol i'r lleoliad a'u bod yn bodloni'r gofynion. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn meddu ar wybodaeth dda am yr hyn a ddisgwylir ganddynt ac maent yn sicrhau'n gyson bod y lleoliad nid yn unig yn cyrraedd y safonau gofynnol, ond ei fod yn rhagori arnynt. Maent yn chwarae rhan weithgar yn y gwaith o redeg y lleoliad o ddydd i ddydd, gan sicrhau y gallant fonitro'r gofal a ddarperir yn effeithiol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn defnyddio gweithdrefnau hunanwerthuso effeithiol i gael gwybod barn y plant, y rhieni a'r staff. Caiff pob ystafell ei gwerthuso, nodir gwelliannau a chynllunnir ar gyfer y gwelliannau hynny, gan sicrhau bod y lleoliad yn symud ymlaen yn gyson a'i fod yn gwneud newidiadau cadarnhaol sydd o fudd i'r plant. Er enghraifft, creu ardal ar wahân yn yr awyr agored y gellir ei chyrraedd yn syth o'r ystafell fabanod sy'n cynnwys adnoddau penodol ar gyfer y plant yn yr ystafell honno.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad dîm o staff ymroddedig sy'n helpu ei gilydd ac yn darparu'r gofal gorau posibl i'r plant. Maent yn cydweithio'n eithriadol o dda, gan ddeall eu rolau a'u cyfrifoldebau er mwyn sicrhau bod y diwrnod yn mynd rhagddo'n hwylus. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn mwynhau eu gwaith ac yn teimlo bod y bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn eu cefnogi. Mae'r staff yn cael sesiynau goruchwylio ac arfarniadau rheolaidd gan sicrhau y caiff anghenion hyfforddi eu nodi ac y caiff gwybodaeth ei rhannu'n effeithiol. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad raglen recriwtio gadarn iawn ar waith, gan sicrhau bod gan bob aelod o'r staff yr hyfforddiant, y profiad a'r gwiriadau priodol sydd eu hangen i ddangos eu bod yn addas i ofalu am blant. Cynhelir gweithdrefn sefydlu effeithiol er mwyn sicrhau bod aelodau newydd o'r staff yn gwbl ymwybodol o'r polisïau, y gweithdrefnau, y drefn a'r hyn a ddisgwylir ganddynt.

Caiff cydberthnasau cadarnhaol eu meithrin â'r rhieni. Caiff gwybodaeth am ddiwrnod eu plentyn, ei ddatblygiad a'i brofiadau ei rhannu'n effeithiol drwy ap ar-lein. Cynhelir boreau coffi a diwrnodau agored er mwyn i'r rhieni allu ymweld â'r lleoliad a gweld y gweithgareddau a'r adnoddau sydd ar gael i'r plant.

## Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

Dim

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 13/12/2022